# Adolygiad Cenedlaethol o Baneli Ymlyniad Strategol Lleol 2012/2013

CPS

**Cyfarwyddiaeth Atebolrwydd a Chynhwysedd Cyhoeddus**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1.0 | Cyflwyniad | **3** |
| 2.0 | Ymgysylltiad Cymunedol | **3** |
| 3.0 | Trin Cwynion | **4** |
| 4.0 | Materion Polisi | **4** |
| 5.0 | Troseddau Casineb | 5 |
| 6.0 | Materion yr Heddlu | **7** |
| 7.0 | Dioddefwyr a Thystion | **8** |
| 8.0 | Trais yn Erbyn Menywod a Merched | **9** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Ar ôl pob Panel Ymlyniad Strategol Lleol (LSIP) mae pob Ardal yn cyflwyno ffurflen adborth i'r Gyfarwyddiaeth Atebolrwydd a Chynhwysedd Cyhoeddus (PAID). Mae'r adborth o'r Ardaloedd yn cynnwys; materion a ddynodwyd; gwersi a ddysgwyd; ac arfer da yn ogystal â chamau a gymerwyd i ymdrin â chanlyniadau. Cynhwysir arferion a chanlyniadau da o'r Paneli yn y canllaw arferion da Safon Ymgysylltiad Cymunedol Blynyddol CQS12.

1.2 Mae'r ffurflen ymateb Ardal hefyd yn gofyn am ddynodi materion i'w hystyried ar lefel genedlaethol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r materion sydd wedi cael eu hystyried yn genedlaethol o ganlyniad i adborth LSIP am y cyfnod 2012/13.

1.3 Mae gan Ardaloedd CPS enwau gwahanol ar eu paneli felly ar gyfer yr adroddiad hwn rydym wedi enwi Ardal y CPS. Mae thema i rai paneli e.e. Panel Craffu Trais yn Erbyn Menywod a Merched felly, ar gyfer yr adroddiad hwn defnyddiwyd y term panel am bob math o banel.

## 2.0 Ymgysylltiad Cymunedol

2.1 Fe wnaeth panel CPS Dwyrain Lloegr holi beth oedd y rhesymeg tu ôl i'r newidiadau i Strwythur Ymgysylltiad Cymunedol y CPS ac am gael gwybod pa ymgynghori a ddigwyddodd yn genedlaethol cyn gwneud y penderfyniad. Cyflwynwyd y cynnig i ailstrwythuro'r LSIP i'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol (CAF) i roi gwybod iddyn nhw ac i ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig. Nod yr adolygiad oedd canfod y ffordd fwyaf effeithiol o strwythuro'r paneli mewn modd cynaliadwy. Cynigiwyd nifer o ddewisiadau i CAF a dewiswyd y dewis oedd yn rhoi hyblygrwydd i ardaloedd trwy ganiatáu i randdeiliaid osod blaenoriaethau lleol a chraffu ar ffeiliau achos.

2.2 Gofynnodd CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr am fwy o amser i ymgynghori ar flaenoriaethau busnes cenedlaethol. Anfonwyd y cais hwn yn ei flaen at dîm Ailffocysu'r CPS ac er bod cydnabyddiaeth ei bod yn ddymunol ymgynghori cymaint â phosibl, mae'r amserlenni tynn yn aml yn golygu bod ymgynghori yn eang yn lleol a chenedlaethol yn amhosibl yn ymarferol. Felly bydd CAF yn parhau i fod yn brif grŵp ymgynghori ar flaenoriaethau cenedlaethol.

2.3 Gofynnodd panel CPS Llundain am gyfarwyddyd ar ddefnyddio Datganiadau Effaith Cymunedol (CIS). Datblygwyd y cyfarwyddyd ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan y CPS:-
http://www.cps.gov.uk/legal/a_to_c/community_impact_statement_-_adult/index.html

2.4 Gofynnodd panel CPS Dwyrain Lloegr am eglurhad ar lif gwybodaeth rhwng LSIP a CAF:-

- Fel rhan o'r adolygiad o CAF, mae PAID yn rhoi'r newyddion diweddaraf am gyfarfodydd CAF yng Nghylchlythyr CE. Dosberthir y cylchlythyr i Ardaloedd i'w anfon ymlaen i aelodau'r LSIP bob chwarter.
- Mae'r papurau CAF yn mynd i Reolwyr Ymgysylltiad Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDCEM) ac os dewisant gallant eu hanfon ymlaen at aelodau LSIP.
- Mae EDCEM yn dod i CAF ar sail rota
- Mae nifer o aelodau CAF hefyd yn aelodau o LSIP ac yn dwyn eu profiad o LSIP i drafodaethau CAF.
- O'r sicrwydd VAWG cynigir y dylid cael adborth y ddwy ffordd rhwng y broses Adolygu Perfformiad Blynyddol ac LSIP. Awgrymir y dylai adborth CAF/LSIP gael ei drefnu a bod Rheolwr y Strategaeth VAWG yn cynnwys adborth i Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG (ECG).

2.5 Teimlai panel Glannau Mersi a Swydd Gaer y dylid ystyried cynnal cyfarfodydd y Panel Craffu Cenedlaethol tu allan i Lundain. Dibenion y Paneli Craffu Cenedlaethol (NSP) yw rhoi ymateb i faterion sy'n gofyn am safbwynt cenedlaethol. Gall Paneli Craffu Cenedlaethol ymdrin â materion pan fydd enghreifftiau o'r gwaith achos penodol yn brin yn yr ardaloedd ac felly bod angen safbwynt cenedlaethol i gynnig darlun cliriach. Cynhaliwyd Paneli Craffu Cenedlaethol yn ystod 2012/13 ar Gam-drin mewn perthynas rhwng rhai yn eu harddegau a Throseddau Casineb Trawsffobaidd. Mae LSIP yn cynnig craffu lleol ac NSP yn craffu yn genedlaethol ac fe'u cynhelir yn y brif swyddfa yn Llundain.

## 3.0 Trin Cwynion

3.1 Trafododd panel CPS Llundain bwyslais perfformiad y CPS ar brydlondeb ymateb i gwynion yn hytrach nag ansawdd y cynnwys a'r ffordd y mae'r ardal yn dysgu o ganlyniadau cwynion. Adolygwyd y broses o ymdrin â Chwynion i adlewyrchu cyflwyno'r cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad a phenodi Asesydd Annibynnol Cwynion yn lle adolygiad trydedd haen dan yr hen broses gwynion. Yn ychwanegol at archwilio'r broses gwynion bydd yr Asesydd Annibynnol Cwynion hefyd yn cynorthwyo PAID i ddatblygu proses fonitro newydd i gwynion.

## 4.0 Materion Polisi

4.1 Fe wnaeth CPS Cymru ystyried hyblygrwydd yn ymwneud â'r polisi rhybudd amodol gan ofyn i'r dewis fod ar gael ar gyfer achosion cam-drin domestig a chasineb pe byddai'n cael ei ystyried yn addas. Mae Cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr yn parhau yn glir ar y mater ac ar hyn o bryd nid oes cynlluniau i'w newid. Gallai rhoi disgresiwn llwyr i'r heddlu greu perygl y byddai achosion amhriodol yn cael eu hystyried ar gyfer rhybudd amodol heb fewnbwn gan y CPS. Mae materion mwy cyffredinol hefyd am benderfyniadau tu allan i'r llys a throseddau casineb sy'n ymwneud â hygyrchedd cyrsiau, addasrwydd y cynnwys, gwerthuso effaith ac ansawdd yr ymarferwyr sydd eto i gael eu trin trwy

dreialu. Tanlinellodd un astudiaeth genedlaethol hefyd yr anhawster o gael cynaliadwyedd ac i ba raddau y gellir trosglwyddo cyrsiau/dulliau o gasineb hil i, er enghraifft, droseddau casineb anabledd neu drawsffobaidd. Bydd y polisi rhybudd amodol presennol yn parhau ar hyn o bryd, tra bydd ymchwil yn parhau yn Wessex ar ddefnyddio rhybudd amodol mewn achosion trais domestig. Mae'r ymchwil wedi ei ddal yn ôl oherwydd y prinder achosion ac felly mae wedi ei ymestyn i roi adroddiad yn ddiweddarach yn 2013.

4.2 Roedd CPS Glannau Mersi a Swydd Gaer am godi ymwybyddiaeth gydag Ardaloedd CPS eraill am Gyfarwyddyd Glannau Mersi a Chaer yn ymwneud â Facebook. Lansiodd prif swyddfa'r CPS gyfarwyddyd ar gyfer achosion yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol yn Rhagfyr 2012. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyfarwyddyd a ddaeth i ben ym Mawrth 2013. Lansiwyd y cyfarwyddyd terfynol ym Mehefin 2013 Canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir trwy gyfryngau cymdeithasol

4.3 Gofynnodd CPS Llundain a oedd polisi gan y CPS ar Gyfiawnder Adferol. Mae'r CPS yn cefnogi defnyddio technegau Cyfiawnder Adferol ar bob cam yn y System Cyfiawnder Troseddol, yn unol â safiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder; ond er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd ac ymarferwyr mewn cynadledda Cyfiawnder Adferol mewn achosion o drais domestig, treisio, troseddau rhywiol a throseddau casineb, mae'r CPS yn argymell y dylai unrhyw gynadledda Cyfiawnder Adferol gael ei achredu a'i werthuso yn ddiogel i'r dioddefwyr hynny sy'n arbennig o fregus.

## 5.0 Troseddau Casineb

5.1 Adroddodd panel CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr bod polisi CPS yn nodi y bydd dioddefwyr troseddau a waethygwyd gan hil/crefydd yn cael eu hystyried yn Dystion Dan Fygythiad ond nad oes datganiad tebyg yn y polisi Homoffobaidd/Trawsffobaidd. Diffinnir tystion Dan Fygythiad yn a17 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol fel rhai sy'n dioddef o ofn neu drallod yng nghyswllt rhoi tystiolaeth yn eu hachos. Gall dioddefwyr troseddau casineb gael eu gweld fel rhai sy'n disgyn i'r categori hwn ond nid ydynt dan fygythiad dan bob amgylchiad. Gwaith yr heddlu a'r CPS yw cyflwyno'r ddadl i'r llys ac fel y cyfryw dylai ein polisi a'n cyfarwyddyd fod yn glir o ran pwy all fod yn gymwys. Mae safonau newydd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO)/CPS ar gyfer Unedau Gofal Tystion yn ei gwneud hi'n glir y bydd dioddefwyr troseddau casineb yn cael eu hystyried fel y rhai sydd â mwyaf o angen o ran y gefnogaeth a all fod ar gael. Bydd Cod y Dioddefwyr sydd i'w gyhoeddi gan y Llywodraeth hefyd yn dilyn trywydd tebyg.

5.2 Dynododd panel CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr nifer o faterion i wella ymdrin ag achosion fel; yr angen am well gwybodaeth gefndirol; gwell cyfathrebu gyda dioddefwyr; ansawdd trin achosion; gwell cefnogaeth i

ddioddefwyr a thystion a mwy o ddealltwriaeth o'r problemau ac effaith troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd. Teimlai'r panel bod y materion yn berthnasol i ddioddefwyr troseddau ar sail anrhydedd a throseddau casineb homoffobaidd. Bydd y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi yn adnewyddu'r polisi/cyfarwyddyd ar droseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd a fydd yn rhoi cyfle i ymdrin â nifer o'r materion a godwyd.

5.3 Gofynnodd Panel CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr i'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi ofyn i'r Cydlynwyr Troseddau Casineb Ardal atgoffa'r holl gyfreithwyr bod y polisi yn ymwneud ag atgyfeirio achosion a waethygwyd gan grefydd wedi newid ac y gellir ymdrin â nhw yn yr Ardal yn awr yn yr un modd â throseddau a waethygwyd gan hiliaeth. Codwyd y mater hwn gyda'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi.

5.4 Rhoddodd panel CPS Cymru adborth i'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi o ran y diweddaru polisi/cyfarwyddyd ar droseddau casineb anabledd sy'n cael eu symud ymlaen, yn awr bod yr adroddiad thematig ar y cyd wedi cael ei gyhoeddi. Ar hyn o bryd mae PAID yn adolygu cynllun gweithredu DHC yng ngoleuni'r adroddiad ac mae wedi gofyn i'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi am amserlen wedi ei diweddaru.

5.5 Mae panel CPS Swydd Efrog a Glannau Humber yn derbyn nad yw tueddfryd rhywiol yr un fath â hunaniaeth rywiol ac felly bod homoffobia yn wahanol i drawsffobia ac mae'n edrych ar ffyrdd i fonitro achosion y ceir adroddiad arnyn nhw. Mae'r diwygiad i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn cyflwyno'r ffactor gwaethygol statudol ar sail hunaniaeth trawsryweddol. Bydd ar y CPS angen rhagor o waith i annog hyder a rhoi adroddiadau. Cychwynnodd y gwaith hwn yn rhannol gan Is-grŵp CAF ar Gydraddoldeb Trawsryweddol. Bydd y Cyfarwyddyd Cydraddoldeb Trawsryweddol i Reolwyr yn barod yn nes ymlaen yn 2013 a thrafodir cefnogaeth i erlynyddion gydag Arweinyddiaeth a Dysgu.

5.6 Datblygodd a chyhoeddodd CPS Gogledd Orllewin Lloegr a CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr ddeunyddiau hyfforddi amrywiol ar gyfer Troseddau Casineb sydd wedi cael eu cylchredeg yn genedlaethol a'u cyhoeddi ar wefannau Ardal.

5.7 Croesawodd a thrafododd panel CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr yr Adroddiad Troseddau Casineb Trawsffobaidd. Mae'r panel yn ystyried y byddai polisi ar wahân ar erlyn troseddau casineb trawsffobaidd o gymorth, ar yr amod bod cydnabyddiaeth i'r cyswllt gyda throseddau casineb homoffobaidd. Ni chafwyd unrhyw benderfyniad gan y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi ar y diwygio polisi/cyfarwyddyd; ond mae ystyriaeth yn cael ei roi a fyddai dogfen ehangach yn ymdrin â'r ddau fath o droseddau casineb yn addas gan wneud y cysylltiadau

yn eglur, yn arbennig o ran tystiolaeth o gymhelliad troseddwyr yn ymdrin â'r mater.

5.8 Gofynnodd aelod o banel CPS Cymru, Stonewall Cymru, am i ddata troseddau casineb gael ei gyflwyno ar ffurf blwyddyn galendr yn hytrach na blwyddyn ariannol. Gan fod y CPS yn cael ei ariannu i gyflawni yn ôl blwyddyn ariannol, rhoddir adroddiad ar holl ddata'r CPS yn ôl blwyddyn ariannol. Mae'r CPS yn cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) am ystod o faterion data ac un awgrym cynnar gan yr heddlu yw y gallai rhoi adroddiad ar droseddau casineb gael ei symud i'r flwyddyn ariannol gan y bydd yn ychwanegu at y ddealltwriaeth gynyddol o droseddau casineb ar draws y System Cyfiawnder Troseddol.

5.9 Adroddodd panel CPS Wessex bod y diffynyddion mewn achos o gam-drin homoffobaidd yn destun gorchymyn atal; ond gan eu bod yn ifanc ni chawsant eu henwi er eu bod yn hysbys i'r dioddefwr. Rhoddodd y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi a'u cydweithwyr yn y Tîm Erlyn ystyriaeth a ddylid cael eithriad tebyg i bob amod mechnïaeth.

5.10 Gofynnodd panel CPS De Orllewin Lloegr pryd y bydd adroddiad arolwg thematig ar y cyd Troseddau Casineb Anabledd yn cael ei gyhoeddi. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 21 Mawrth ac mae PAID yn awr wedi adnewyddu'r Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb Anabledd yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad. Mae llawer o'r camau gweithredu eisoes ar y gweill.

5.11 Cred panel CPS Cymru y gall rhybuddion amodol weithiau fod y modd mwyaf effeithiol o ymdrin â rhai achosion troseddau casineb a gall gynnig gwell ateb i rai dioddefwyr. Nid yw'r gyfraith, fel y mae ar hyn o bryd, yn caniatáu i rybuddion amodol gael eu rhoi mewn achosion troseddau casineb.

5.12 Mae panel CPS Swydd Efrog a Glannau Humber wedi cydnabod yr angen i asiantaethau cyfiawnder troseddol gysylltu ag asiantaethau perthnasol, e.e. darparwyr tai, yn arbennig mewn achosion troseddau casineb. Byddai llawer o'r achosion y maent wedi craffu arnynt na wnaeth arwain at gollfarn wedi bod yn addas ar gyfer rhyw fath o ymyrraeth gan asiantaeth o'r tu allan i'r CPS er mwyn cynnig cefnogaeth i'r dioddefwr neu i leihau'r risg y bydd yn cael ei erlid yn y dyfodol. Nid oes ffyrdd ffurfiol o atgyfeirio achosion a all gefnogi datrysiadau sifil. Codwyd y mater gyda'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi i'w ystyried er mwyn ei gynnwys mewn polisi/cyfarwyddyd wrth ei adnewyddu.

## 6.0 Materion yr Heddlu

6.1 Cred panel CPS Gogledd Orllewin Lloegr y dylai'r heddlu edrych ar ansawdd datganiadau effaith dioddefwyr. Cynhwyswyd y cynllun Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS) yn y Cod Dioddefwyr

diwygiedig y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arwain arno. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod diwygiedig - bydd yr ymgynghori yn dechrau ar 1 Ebrill 2013. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arwain adolygiad ar y cynllun i wella dealltwriaeth o'i ddiben a chynyddu'r nifer o ddioddefwyr ar yr amser priodol sy'n medru gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a ydynt am wneud Datganiad Personol Dioddefwr, gan sicrhau bod Datganiad Personol Dioddefwr yn cael ei gynnig ym mhob achos sydd yn mynd yn ei flaen.

6.2 Teimlai panel CPS Gogledd Orllewin Lloegr ei bod yn bwysig i'r Heddlu holi'r dioddefwr ar hyd oes yr achos a yw am wneud datganiad effaith dioddefwr neu beidio. Gwnaed ymholiadau pellach gyda'r arweinwyr heddlu perthnasol a rhoddir y newyddion diweddaraf fel y bydd yn cael ei dderbyn.

## 7.0 Dioddefwyr a Thystion

7.1 Holodd panel CPS Swydd Efrog a Glannau Humber a oedd gan unrhyw Ardaloedd CPS brotocolau rhannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol am rannu gwybodaeth a sut y gall gwybodaeth a gedwir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddioddefwyr neu dystion gael ei defnyddio mewn achosion troseddol. Mae gwaith ar y gweill ar draws y llywodraeth i weld sut y gall gwybodaeth gael ei defnyddio mewn achosion troseddol yng nghyswllt Treisio. Mae gan CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr brotocol rhannu gwybodaeth cyfredol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

7.2 Nododd panel CPS Wessex bod angen blwch mwy ar y ffurflen asesu camau arbennig o ran y modd y bydd camau arbennig yn gwella ansawdd y dystiolaeth. Yn yr MG2 newydd mae adrannau y gellir eu hymestyn ac felly gellir defnyddio'r adran ar sut y bydd Camau Arbennig yn gwella ansawdd y dystiolaeth yn llawn.

7.3 Gofynnodd panel CPS Llundain am roi ystyriaeth i lythyr safonol at y cwnsler gyda chyfarwyddiadau dan y camau arbennig y dylid eu hystyried. Mae Cyfarwyddiadau'r Eiriolwr sy'n Erlyn yn trafod Camau Arbennig.

7.4 Nododd panel CPS Gogledd Orllewin Lloegr ei bod yn bwysig os gofynnir am ddyrchafu achos yn y llys yna ei fod yn cael ei gymeradwyo yn glir ar y ffeil. Fel rhan o'r strategaeth data cydraddoldeb a chamau sicrhau, mae gwaith ar y gweill i edrych ar bob agwedd o ddyrchafu a145/a146. Dylai'r CMS fod yn cofnodi os bydd yn y cam cyntaf yn cael ei nodi, y cyflwynwyd tystiolaeth yn yr ail gam yn y llys ac yn y trydydd cam a wnaeth y llys gytuno. Yn ddiweddar mae'r llysoedd wedi cyflwyno eu system eu hunain ar gyfer cofnodi ac rydym yn aros am y canlyniadau cyntaf.

7.5 Nododd panel CPS Gogledd Orllewin Lloegr, os bydd oedi yn yr achos, fel gohiriad, dylid esbonio’r rhesymau am hyn yn glir yn y llythyr at y dioddefwr neu’r tyst er mwyn lleihau’r posibilrwydd na fyddant yn cefnogi’r erlyniad yn y dyfodol. Mae gan Unedau Gofal Tystion gyfrifoldebau dan y Cod Dioddefwyr a Siarter y Tystion i roi gwybod i ddioddefwyr a thystion am ganlyniad unrhyw wrandawiad. Nid oes gofyn yn nodi bod rhaid rhoi’r rhesymau am yr oedi. Gall y lefel o fanylder y byddant yn ei roi ddibynnu ar y wybodaeth a roddir iddynt naill ai gan y llys (sydd ag ymrwymiad statudol dan God y Dioddefwyr i roi canlyniad y gwrandawiad i’r Unedau Gofal Tystion) neu gan eiriolwr y CPS oedd yn bresennol yn y llys. Diben y cynllun Cyfathrebu’n Uniongyrchol â Dioddefwyr yw rhoi gwybod i ddioddefwyr am benderfyniadau’r CPS i beidio â pharhau â chyhuddiad neu i’w newid yn sylweddol, na fydd yn ymwneud â’r CPS yn rhoi rhesymau am yr oedi yng ngweithrediadau’r llys.

7.6 Teimlai panel CPS De Orllewin Lloegr y gallai fod o ddefnydd rhannu gwybodaeth am unrhyw hyfforddiant neu brosiectau ymwybyddiaeth sy’n cael eu gwneud gan yr heddlu i wella dealltwriaeth y swyddogion o gamau arbennig a phwysigrwydd cyfleu anghenion a ganfuwyd yn brydlon. Mae’r CPS yn cymryd camau i sefydlu cyswllt gwaith gyda’r Coleg Plismona newydd i ddatblygu hyfforddiant ar y cyd o ran defnyddio camau arbennig a datblygu’r dull Gweithdy Mordwyo i’r heddlu.

## 8.0 Trais yn erbyn menywod a merched (VAWG)

8.1 Cododd panel CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr bryder gyda PAID nad yw’r CPS yn monitro achosion treisio yn ôl rhywedd y dioddefwr. Ar hyn o bryd mae’r CPS yn monitro rhywedd dioddefwyr trwy Unedau Gofal Tystion trwy’r System Rheoli Tystion. Ar gyfer trais domestig mae’r data yn ddigon cadarn i’w gyhoeddi ond ar gyfer treisio nid yw’n ddigon cadarn hyd yn hyn. Yn 2011-12 gwelwyd gwelliant mewn cofnodi rhywedd dioddefwyr treisio pan aeth i fyny i 75%, ond nid oedd yn ddigon cadarn i’w gynnwys yn yr adroddiad VAWG.

8.2 Nododd panel CPS Cymru bod cyfuno’r diffiniad o drais domestig yn y System Gyfiawnder Troseddol wedi ei lansio. Anfonwyd porth CPS at staff i roi gwybod iddynt am y diffiniad traws-lywodraethol newydd o drais domestig a weithredwyd o Ebrill 2013. Mae’r diffiniad yn cynnwys rhai 16-18 oed yn ogystal ag oedolion ac mae’n ymdrin â gorfodaeth a rheolaeth.

8.3 Teimlai panel CPS De Orllewin Lloegr y gall fod gwersi i’w rhannu ar y dull amlasiantaethol i atal a gwella prosesau erlyn y maent yn eu hadolygu gyda’r rhai sy’n cymryd rhan ar hyn o bryd. Yn fuan bydd arweinydd grŵp gwrthwynebu anffurfio organau rhywiol merched Somali ym Mryste yn rhannu’r gwaith y maent wedi ei wneud â chysylltiadau yn y llywodraeth oherwydd bod ei gwaith yn cael ei weld

yn un sy'n arwain y blaen ac mae'r Ardal yn ceisio parhau i rannu gwybodaeth.

8.4 Awgrymodd panel CPS De Orllewin Lloegr y gall fod yn werth monitro achosion yn y Llysoedd Trais Domestig Arbenigol yn genedlaethol os nad yw'r gwaith eisoes ar y gweill er mwyn cael eglurder o ran gallu'r partner i barhau gyda Llysoedd Trais Domestig Arbenigol. Mae'r holl wybodaeth am Lysoedd Trais Domestig Arbenigol wedi symud at fonitro lleol gan fod nifer y llysoedd yn ei gwneud yn amhosibl gwneud hynny ar lefel genedlaethol.

8.5 Awgrymodd panel CPS Swydd Efrog a Glannau Humber y byddai o fudd rhoi mwy o ystyriaeth yn genedlaethol i'r mater a ddylai dioddefwyr treisio rhywiol roi tystiolaeth yn fyw neu trwy gyswllt fideo/teledu. Ar hyn o bryd mae'r Ardaloedd yn cael eu holi am eu profiad o gyfweliadau ABE a'u heffaith ar ganlyniadau. Gofynnir am ragor o wybodaeth yn awr i ddatblygu Unedau RASSO ar draws yr holl Ardaloedd CPS. Mae'r Cwnselwyr yn awgrymu bod tystiolaeth fyw yn cael mwy o effaith ar y rheithgor. Yn hytrach na thybio y bydd dioddefwyr treisio rhywiol am gael y camau arbennig yma, dylid rhoi digon o wybodaeth iddyn nhw am y dewisiadau sydd ar gael i wneud eu dewis ar sail gwybodaeth.

8.6 Mae panel CPS Wessex am symud yr angen i addysg am berthynas iach fod ar y cwricwlwm ymlaen i PAID. Gwaith y CPS ar VAWG yn bwydo i mewn i strategaeth draws-lywodraethol ehangach. Prif ffocws y strategaeth hon yw atal VAWG rhag digwydd yn gyntaf ac mae'n cynnwys ymrwymiad i 'Ganfod ffyrdd newydd o addysgu plant a phobl ifanc am berthynas iach a chydsyniad rhywiol.' Mae'r CPS yn cefnogi'r pwyslais hwn ar atal a bydd yn parhau i sôn am bwysigrwydd addysg addas trwy'r bwrdd cyflawni traws-lywodraethol sy'n cynnwys aelodau o'r Adran Addysg. Amlinellir y camau i atal VAWG yn y cynllun gweithredu traws-lywodraethol a adolygwyd ym Mawrth 2013.